O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1229 (Cy.160)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r Dwyrain o Droeon Tan-yr-unto, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *9 Mai 2011*

*Yn dod i rym* *16 Mai 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt..

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 **(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.**Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2011. Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r Dwyrain o Droeon Tan-yr-unto, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.**—(1)Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 16 Mai 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494), i'r dwyrain o Droeon Tan-yr-unto, sy'n ymestyn o bwynt ar derfyn dwyreiniol y gwaharddiad terfyn cyflymder 40 mya presennol i gyfeiriad y dwyrain, am bellter o 1100 metr;